OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 Rhif 194 (Cy. 9)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015

Gwnaed - - - -	*10 Chwefror 2015*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 5 a 47(1) a (2) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**1**), ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dirymu

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015 a daw i rym ar 1 Ebrill 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae'r Gorchmynion a nodir yn yr Atodlen wedi eu dirymu.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "gwladwriaeth berthnasol" ("*relevant state*") yw gwladwriaeth AEE neu'r Swistir;

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2005/36/EC(**2**) ar system gyffredinol o gydnabod cymwysterau proffesiynol; ac

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2007(**3**).

Swyddogaethau Ychwanegol

3.—(1) Mae Cyngor y Gweithlu Addysg, ac yntau wedi ei bennu'n awdurdod cymwys yn unol â'r Rheoliadau, i gael y swyddogaeth o ystyried ceisiadau a rhoi awdurdodiadau i arfer proffesiwn athro neu athrawes ysgol yng Nghymru at ddiben y Gyfarwyddeb.

(**1**) 2014 dccc 5.
(**2**) OJ Rhif L255, 30.9.2005, t. 22, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2006/100/EC ddyddiedig 20 Tachwedd 2006, OJ Rhif L363, 20.12.2006, t. 141.
(**3**) O.S. 2007/2781.

(2) Mae'r Cyngor i roi cyngor a gwybodaeth i'r cyhoedd am y gofynion o ran cydnabod yng Nghymru gymwysterau addysgu a geir mewn gwladwriaeth berthnasol.

Huw Lewis
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o
10 Chwefror 2015 Weinidogion Cymru